# Ymgymryd â gwaith chwarae mewn mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol, fel llochesau menywod, prosiectau i'r digartref neu ganolfannau cadw. Mae'n ymwneud â nodi anghenion emosiynol plant a phobl ifanc a datblygu lleoedd chwarae a fydd yn diwallu'r anghenion hyn a rhoi cymorth i blant a phobl ifanc yn ystod chwarae. Gall hefyd gynnwys gweithio gyda rhieni a/neu ofalwyr i ddeall pwysigrwydd a gwerth chwarae ym mywydau eu plant a'u perthynas gyda nhw.

*

*

*

*

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. creu lleoedd chwarae lle gellir rhoi cymorth emosiynol i blant a phobl ifanc
2. gweithio gydag eraill mewn mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i adnabod a chefnogi anghenion plant a phobl ifanc

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol ac sy'n gyfrifol yn bennaf am roi cyfleoedd i blant chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth fyfyrio ar eu gwaith. **

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Creu lleoedd chwarae lle gellir rhoi cymorth emosiynol i blant a phobl ifanc**

1. darparu cymorth i **blant a phobl ifanc** er mwyn iddynt setlo yn y lleoliad chwarae
2. creu lleoedd chwarae a rhoi adnoddau iddynt er mwyn eu gwneud yn hwyliog ac yn berthnasol i ddiddordebau ac emosiynau **plant a phobl ifanc**
3. gweithredu mewn dull ymarferol a hwyliog sy’n sensitif i giwiau chwarae **plant a phobl ifanc**
4. cofnodi arsylwadau o **blant a phobl ifanc** yn chwarae
5. darparu cymorth i **blant a phobl ifanc** unigol wrth iddynt brofi teimladau ac ymddygiad sy’n anodd iddynt
6. dangos eich bod yn gwrando ac yn ymateb i **blant a phobl ifanc**

**Gweithio gydag eraill yn mannau sy’n darparu gwasanaethau arbenigol i adnabod a chefnogi anghenion plant a phobl ifanc**

1. gweithredu fel eiriolwr hawliau **plant a phobl ifanc** i chwarae fel maen nhw’n dewis ac yn dymuno ei wneud
2. annog **eraill** yn y **mannau sy’n darparu gwasanaethau arbenigol** i sylwi ar chwarae a’i werthfawrogi
3. annog rhieni a/neu ofalwyr i gymryd amser i ymateb i’w plant mewn ffordd chwaraeus
4. rhoi cymorth i rieni a/neu ofalwyr i adeiladu rhwydweithiau a pherthynas gyda theuluoedd eraill yn y mannau sy’n darparu gwasanaethau arbenigol
5. hybu ymdeimlad o gymuned sy’n rhoi lle canolog i **blant a phobl ifanc**
6. hybu gwaith chwarae ymhlith rhieni a/neu ofalwyr drwy gynllunio a chyflenwi dewis eang o weithgareddau chwarae i’r teulu
7. myfyrio ar eich gwaith eich hun a chyfoedion yn rheolaidd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Creu lleoedd chwarae lle gellir rhoi cymorth emosiynol i blant a phobl ifanc**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi.
2. sut i greu amgylchedd cynnes, croesawgar sy'n annog plant a phobl ifanc i deimlo eu bod yn rhydd i chwarae, mewn **mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol **
3. polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i rôl gweithiwr chwarae mewn **mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol **
4. materion allweddol sy'n ymwneud â chyswllt gyda phlant a phobl ifanc
5. pwysigrwydd deall a pharchu amrywiaeth diwylliannol a theuluol
6. sut i gael ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig, digartrefedd a dadleoli
7. effaith cam-drin domestig, digartrefedd a dadleoli
8. pwysigrwydd cael adnoddau o ansawdd uchel sy'n ystyriol o blant a phobl ifanc sy'n cael eu hamddifadu o brofiadau chwarae
9. y **teimladau** tebygol sydd gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd pan fyddant yn cyrraedd
10. y polisïau, gweithdrefnau a logisteg sydd ar waith i helpu plant a phobl ifanc ymgartrefu ac ymgyfarwyddo
11. effaith bosib cam-drin domestig, digartrefedd ac adleoliad ar ddatblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc
12. sut all profiadau plant a phobl ifanc o gam-drin domestig, digartrefedd ac adleoli ddod i'r amlwg yn eu chwarae
13. effaith cam-drin domestig ar y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn
14. y berthynas rhwng cam-drin domestig mewn perthynas â cham-drin emosiynol
15. y gwahaniaethau posib rhwng y rhywiau ac effaith eich rhywedd personol ar arferion gwaith a dealltwriaeth o blant a phobl ifanc
16. egwyddorion gwaith chwarae therapiwtig
17. defnyddio'r man chwarae fel amgylchedd therapiwtig

**Gweithio gydag eraill mewn mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i adnabod a chefnogi anghenion plant a phobl ifanc**

1. y polisïau, gweithdrefnau a logisteg 'ymgartrefu' ar gyfer yr oedolyn

2. yr angen i adfer ymlyniad rhwng rhieni a/neu ofalwyr a phlant a phobl ifanc
3. sut i annog rhieni a/neu ofalwyr i ymwneud â chwarae eu plant
4. pwysigrwydd annog rhieni a/neu ofalwyr i adeiladu rhwydweithiau a pherthynas gyda theuluoedd eraill a strategaethau i’w hwyluso

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Plant a phobl ifanc**

1. unigolion
2. grwpiau

*

*

**Eraill**

1. rhieni a/neu ofalwyr
2. cydweithwyr
3. ymwelwyr

**Mannau sy’n darparu gwasanaethau arbenigol**

(o leiaf 1 allan o 3)

1. llochesau menywod
2. canolfannau cadw
3. prosiectau digartref

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol**

1. llochesau menywod
2. canolfannau cadw
3. prosiectau digartref

**Teimladau**

1. trawmateiddio
2. ymwahanu
3. colled
4. gorbryder
5. euogrwydd
6. ofn
7. arwahanrwydd
8. digalondid

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

**Egwyddorion Gwaith Chwarae**

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chware a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1.
Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfol a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.

2.
Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.

3.
Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.

4.
Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.

5.
Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.

6.
Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.

7.
Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw’n ei chael ar y man chwarae a hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.
8.
Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae.  Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwyso'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu’r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwylio'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa

**Ciwiau Chwarae**
Mynegiant wyneb, iaith neu iaith y corff sy’n cyfleu dymuniad y plentyn neu’r unigolyn ifanc i chwarae neu sy’n gwahodd eraill i chwarae

**Man chwarae**
Man chwarae sy’n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn gorfforol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â’r byd seibr.

**Lleoliad gwaith chwarae**
Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

**Staff**
Y bobl rydych chi’n gweithio gyda nhw, y bobl rydych chi’n gyfrifol amdanyn nhw, gweithwyr cyflog neu wirfoddol, myfyrwyr neu o dan hyfforddiant.

SKAPW90

Ymgymryd â gwaith chwarae mewn mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2016 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAPW44 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus, Lles a Datblygiad Plentyn, Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol, Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | gwaith chwarae; mannau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol |